# Y CYNGOR, 11/12/08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, S W Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Gwen Gruffydd, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles W Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, R L Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, Gareth Roberts, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau), Dewi Rowlands (Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd) Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Strategol Datblygu), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Strategol Gofal), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Rheolwr Archwilio a Risg), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Peter Evans (Uwch Rheolwr Polisi a Pherfformiad), Gwenan Parry (Pennaeth Cefnogaeth Gofal Cwsmer), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi ac Adfywio), Gwen Carrington (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Ffrancon Williams (Pennaeth Prosiect Stoc Tai), Seimon Williams (Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Jean Forsyth, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Christopher Hughes, Sylvia Humphreys, Dai Rees Jones, Linda Wyn Jones, Caerwyn Roberts a Dyfrig Siencyn

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Dafydd Ll Hughes

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2008 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn y rhybudd o gynnig ynglŷn â thŷ arddangos y Prosiect Pleidlais Stoc Tai yn Nhremadog oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Cysgodol Tai;

Y Cynghorwyr Ann Lloyd Jones, Brian Jones, Dewi Lewis a John Wyn Williams.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(b) Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn y rhybudd o gynnig ynglŷn â thŷ arddangos y Prosiect Pleidlais Stoc Tai yn Nhremadog, oherwydd ei fod wedi pleidleisio ar y mater mewn cyfarfod o gorff cyhoeddus arall. Ni chymerodd ran yn y drafodaeth ar yr eitem.

(c) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem Y Goleuad am y rhesymau a nodir.

- Y Cynghorydd Siân Gwenllian oherwydd cyswllt teuluol gyda Cwmni Da;
- Y Cynghorydd Dyfrig Wynn Jones oherwydd cyswllt proffesiynol gyda Cwmni Da;
- Y Cynghorydd John Wyn Williams oherwydd bod nith iddo yn gweithio i Cwmni Da;
- Y Cynghorydd Gwilym Euros oherwydd cyswllt proffesiynol gydag un o'r cwmnïau oedd wedi cyflwyno tendr am yr adeilad

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(ch) Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol yn eitem Y Goleuad oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Cwmni C.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, fodd bynnag adroddodd ei fwriad i beidio cymryd rhan yn y trafodaethau ac i atal ei bleidlais ar y mater.

(d) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol ym mhob eitem yn gysylltiedig â thai'r Cyngor a gofal gwasanaethau cymdeithasol oherwydd ei fod yn denant i'r Cyngor a bod ei wraig yn derbyn gofal.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Ni adawodd y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth.

(dd) Datganodd holl aelodau'r Cyngor fuddiant personol yn yr eitem Lwfansau Aelodau, ac fe'i cynghorwyd i lofnodi ffurflen bwrpasol ynglŷn â'r buddiant.

Nid oedd y buddiant yn rhagfarnu. Ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan yn y trafodaethau ar yr eitem.

(e) Datganodd y swyddogion canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:-

- Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn yr eitem Ail-strwythuro Corfforaethol/Arbedion oherwydd ei fod yn effeithio arni. Hefyd datganodd fuddiant ar ran y cyfarwyddwyr strategol, penaethiaid gwasanaeth a staff eraill oedd yr ail-strwythuro yn effeithio arnynt. Gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, heblaw am y Pennaeth Cyllid oedd wedi ei gynghori i aros yn y Siambr;

- Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau yn yr eitem Ailstrwythuro Corfforaethol/Arbedion oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio at swyddi cyfarwyddwyr strategol. Hefyd yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir oherwydd bod ei gyfnither yn Bennaeth Ysgol Llawrybetws. Gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau;

- Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu yn yr eitem Ailstrwythuro Corfforaethol/Arbedion oherwydd ei fod yn uwch swyddog yn un o'r gwasanaethau sydd yn cael ei effeithio gan yr ail-strwythuro

arfaethedig. Hefyd yn eitem Y Goleuad oherwydd bod ei deulu yn gyfeillion â theulu un o gyfarwyddwyr cwmni sydd wedi cyflwyno tendr ar gyfer yr adeilad. Gadawodd y Siambr yn ystod y trafodaethau ar yr eitemau;

- Pennaeth Cyllid yn eitem Y Goleuad oherwydd ei fod yn gyfaill i gyfarwyddwr Cwmni Da a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawyd yn ôl i'r Cyngor, yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty, y Cynghorwyr Dewi Owen ac Owain Williams, hefyd, y Cynghorydd Sylvia Humphreys, oedd yn absennol o'r cyfarfod oherwydd dyletswyddau yn ymwneud â'i ward.

(b) Anfonwyd cofion a dymuniadau gorau at y Cynghorwyr Trevor Edwards a Dai Rees Jones oedd yn absennol oherwydd salwch.

Cyfeiriwyd at lythyr a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dai Rees Jones yn diolch i'r Cyngor am eu dymuniadau da iddo dros gyfnod ei waeledd, ac yn datgan ei fod yn edrych ymlaen at fod yn ôl yn y Cyngor yn y flwyddyn newydd.

(c) Llongyfarchwyd Thomas Turtle, bachgen 8 oed o Abersoch, ar ennill cystadleuaeth darllen stori dros y we drwy Brydain.

Hefyd, llongyfarchwyd Mrs Carys Lake o Ganolfan Iaith Uwchradd Gwynedd ym Mhorthmadog ar ennill gwobr addysgu am ei gwaith yn ysbrydoli disgyblion o hwyrddyfodiaid i ddysgu'r Gymraeg.

(ch) Gofynnwyd yn garedig i aelodau pwyllgorau ardal Arfon a Dwyfor nôl copi o'r Cynllun Tair Blynedd o ystafell yr aelodau cyn ymadael.

**5 AIL-STRWYTHURO CORFFORAETHOL/ARBEDION**

(A) Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr ar uno rheolaeth strategol ac adnoddau polisi a pherfformiad, a chymryd mantais o'r cyfle i wneud arbedion ar lefel staffio cyfarwyddwyr strategol, penaethiaid gwasanaeth a pholisi a pherfformiad.

(B) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Prif Weithredwr.

Eglurodd bod her sylweddol yn wynebu'r Cyngor, bod angen gwella ymhellach y capasiti arwain; datblygu a gwireddu strategaethau; darparu gwasanaethau, gan ar yr un pryd ddygymod â thoriad sylweddol iawn mewn adnoddau.

Cyfeiriodd at amrywiaeth a chymhlethdod busnes y Cyngor, pwysleisiodd bod rhaid sicrhau na than amcangyfrifir yr angen am gapasiti gorfforaethol ac arweinyddiaeth, a manylodd ar y risgiau ynghlwm â pheidio sicrhau'r capasiti angenrheidiol.

Ymhelaethodd ar y cyfyngiadau cyllidol difrifol oedd yn wynebu'r Cyngor. Eglurodd bod diffyg o bron i £6m yn 2009/10, a bod amcangyfrifiad o ddiffyg o tua £25m dros y 5 mlynedd ddilynol, ac anogwyd yr aelodau i gyd-dynnu a chydweithio i wynebu'r her gyda'i gilydd.

Manylodd ar y newidiadau arfaethedig, sef uno adnoddau corfforaethol a strategol, a chreu mwy o amser ar gyfer arweinyddiaeth strategol; lleihau uwch reolaeth y Cyngor o 16%, gan

leihau nifer y cyfarwyddwyr strategol o 4 i 3; diddymu 2 swydd pennaeth gwasanaeth a lleihau capasiti polisi a pherfformiad o 20%. Manylodd ar y modd o wireddu'r newidiadau a'r arbedion drwy ddiswyddiadau a/neu ddiswyddiadau gorfodol, cyfeiriodd at yr ymgynghori oedd wedi mynd rhagddo gan nodi bod cytundeb cyffredinol bod rhaid cyflawni newidiadau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi'r Prif Weithredwr ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig.

(C) Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2008, wedi penderfynu fel a ganlyn, sef:- *"Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, a gofyn i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr, 2008 gymeradwyo penderfyniad canlynol y Bwrdd:-*

*(i) Cymeradwyo cyfuno'r adnoddau corfforaethol a strategol yn unol â'r manylion a nodir yn rhan C o adroddiad y Prif Weithredwr;*
*(ii) Cymeradwyo'r arbedion o 16% mewn costau rheolaeth uwch ac ychydig yn llai nag 20% mewn costau staff polisi/perfformiad yn unol â'r manylion a nodir yn rhan D o'r adroddiad;*
*(iii) Cymeradwyo darparu adnoddau polisi/strategaeth benodol yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol am ddwy flynedd, er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau gwastraff yn unol â chymal 3.4 yn rhan D o'r adroddiad;*
*(iv) Cymeradwyo'r modd o ganfod yr arbedion yn unol â'r manylion a nodir yn rhan E o'r adroddiad;*
*(v) Cymeradwyo ychwanegu swydd Prif Swyddog Addysg i'r rhestr o swyddogion statudol yng nghymalau 2 a 2.1 yn rhan F o'r adroddiad;*
*(vi) Cynnal adolygiad annibynnol o gyflogau rheolwyr uwch gan y bydd cymaint o swyddogion yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol;*
*(vii) Cyfleu diolch i'r rhai fydd yn colli eu swyddi o ganlyniad i'r toriadau am eu gwaith caled a'u hymroddiad, a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol"*

Cynigiwyd ac eiliwyd penderfyniad y Bwrdd.

Eglurwyd bod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol a'r Bwrdd wedi derbyn adroddiad y Prif Weithredwr ac wedi cymeradwyo'r argymhellion Ymhellach penderfynodd y Bwrdd ychwanegu swydd Prif Swyddog Addysg i'r rhestr o swyddogion statudol, darparu adnoddau polisi/strategaeth benodol yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol am ddwy flynedd, er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau gwastraff a chynnal adolygiad annibynnol o gyflogau rheolwyr uwch.

Nodwyd bod yr aelodau'n croesawu'r newid strwythurol ac ail-ddiffinio rôl a swyddogaethau. Hefyd y torri cyswllt rheolaeth llinell rhwng y cyfarwyddwr strategol a'r pennaeth gwasanaeth, a rhoi statws haeddiannol i'r swyddogion statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac Addysg. Roeddynt hefyd yn awyddus i'r swyddogion statudol fod yn aelodau o'r Tîm Rheoli Uwch, i bwrpas cyflawni swyddogaethau statudol.

Mynegwyd gryn bryder ynglŷn â sefyllfa ariannol y Cyngor, a phwysleisiwyd yn gryf yr angen i gymryd camau angenrheidiol er mwyn gwarchod gwasanaethau rheng flaen.

Roedd amryw o'r farn nad oedd yr adroddiad yn mynd yn ddigon pell ac roeddynt yn awyddus i leihau nifer y cyfarwyddwyr o 4 i 2 yn syth. Fodd bynnag roedd eraill o'r farn y byddai toriad mor radical yn peryglu gwasanaethau ac yn risg rhy uchel i'r Cyngor, ac roeddynt yn ffafrio gostwng o 4 i 3 cyfarwyddwr ar hyn o bryd, ac ystyried y sefyllfa ymhellach ymhen dwy flynedd.

Syrthiodd y gwelliant i leihau nifer y cyfarwyddwyr strategol o 4 i 2 yn syth

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, a chefnogi penderfyniad y Bwrdd sef:-**

**(i) Cymeradwyo'r arbedion o 16% mewn costau rheolaeth uwch ac ychydig yn llai nag 20% mewn costau staff polisi/perfformiad yn unol â'r manylion a nodir yn rhan D o'r adroddiad;**

**(ii) Cymeradwyo darparu adnoddau polisi/strategaeth benodol yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol am ddwy flynedd, er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau gwastraff yn unol â chymal 3.4 yn rhan D o'r adroddiad;**

**(iii) Cymeradwyo'r modd o ganfod yr arbedion yn unol â'r manylion a nodir yn rhan E o'r adroddiad;**

**(iv) Cymeradwyo ychwanegu swydd Prif Swyddog Addysg i'r rhestr o swyddogion statudol yng nghymalau 2 a 2.1 yn rhan F o'r adroddiad;**

**(v) Cynnal adolygiad annibynnol o gyflogau rheolwyr uwch gan y bydd cymaint o swyddogion yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol;**

**(vi) Cyfleu diolch i'r rhai fydd yn colli eu swyddi o ganlyniad i'r toriadau am eu gwaith caled a'u hymroddiad, a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol**

## 9 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

### BWRDD Y CYNGOR – 14 HYDREF 2008

### (A) Eitem 6 - Adolygiad o ddarpariaeth toiledau cyhoeddus

(a) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 14 Hydref 2008 ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus, er mwyn canfod arbedion refeniw angenrheidiol ynghyd â chofnod o benderfyniad y Bwrdd, sef:-

*PENDERFYNWYD*

*(i) Cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth*

*(ii) Gofyn i'r Gweithgor symud ymlaen i wneud asesiad cynhwysfawr o holl doiledau cyhoeddus y sir, gan wyntyllu pob posibilrwydd i weithio mewn partneriaeth ar draws y sir, yn ogystal ag edrych ar anghenion lleoliadau strategol, gyda golwg i uwchraddio'r darpariaethau hynny.*

*(iii) Gofyn i'r Gweithgor ymchwilio i gynllun y Cynulliad i annog cynghorau i gydweithio gyda busnesau i hwyluso'r defnydd o doiledau cyhoeddus .*

*(iv) Cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.*

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhelliad y Bwrdd.

Cyfeiriwyd at broblem ariannol ddyrys y Cyngor a'r angen i ddarganfod arbedion sylweddol.

Adroddwyd bod gwaith manwl wedi mynd rhagddo i ganfod arbedion refeniw angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth toiledau cyhoeddus, a bod Gweithgor Gwella, Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Bwrdd y Cyngor wedi rhoddi sylw trylwyr i'r mesurau ac wedi cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig.

Oherwydd bod y mater wedi ei gyfeirio i fyny i'r Cyngor llawn, eglurwyd na fu'n bosibl gweithredu ar y mesurau a gymeradwywyd gan y Bwrdd, a bod y gwasanaeth o'r herwydd yn wynebu gorwariant sylweddol ar y gyllideb. Pe wrthodir yr argymhellion oedd gerbron, pwysleisiwyd y byddai rhaid i'r gwasanaeth darganfod arbedion o £100,000 ar gyfer 2008/09 ac

yn flynyddol wedi hynny, a byddai rhaid torri ar weithgareddau eraill y gwasanaeth er mwyn canfod yr arbedion angenrheidiol.

Roedd rhai o'r farn bod y cynllun oedd gerbron yn rhesymol iawn, gan ei fod yn caniatáu amser i negydu a throsglwyddo cyfrifoldebau neu newid trefn. Hefyd roedd yn caniatáu buddsoddi a gwella toiledau pwysicaf a phrysuraf y Cyngor, yn ogystal â hwyluso gweithio mewn partneriaeth â'r sector gyhoeddus a/neu fusnesau'r sir er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Pwysleisiwyd hefyd bod gwaith y gweithgor yn parhau gan gynnwys ymchwilio i'r posibilrwydd i godi tal yn y toiledau prysuraf.

(c) Mynegodd rhai aelodau gryn wrthwynebiad i'r trefniadau arfaethedig, gan gyfleu pryder y byddai'r newidiadau'n fygythiad i iechyd cyhoeddus, glanweithdra ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a byddai'n esgor ar broblemau i amrywiol wasanaethau'r Cyngor a'r Heddlu.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant "Bod Cyngor Gwynedd yn tynnu'n ôl ei fygythiad i gau'r toiledau cyhoeddus er budd iechyd cyhoeddus, diogelwch a glanweithdra. Er hynny, lle bo cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned a'r aelod lleol fod y toiled yn cau, yna, ni fydd gwrthwynebiad i hynny".

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod:-

O blaid y gwelliant (25)

Y Cynghorwyr Bob Anderson, Anwen Davies, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Ann Lloyd Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, Llinos Merks, Dewi Owen, Peter Read, Dafydd W Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

Yn erbyn y gwelliant (32)

Y Cynghorydd S W Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alun Wyn Evans, Gwen Gruffydd, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Huw Hughes, Brian Jones, Charles W Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Linda Morgan, Arwel Pierce, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Gareth Roberts, Ioan Thomas, Ann Williams, a J.W.Williams,

Atal (4)

Y Cynghorwyr J R Jones, R L Jones, W Roy Owen a R H Wyn Williams

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

(ch) Roedd cytundeb cyffredinol nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gynnal y nifer helaeth o doiledau cyhoeddus ledled y sir, a mynegwyd dymuniad i'r cynghorau cymuned gymryd cyfrifoldeb dros y toiledau cyhoeddus.

Cyfeiriwyd at gynllun diweddar gan y Cynulliad oedd yn darparu ychydig o gyllid ar gyfer annog cynghorau sir i gydweithio gyda busnesau i hwyluso'r defnydd o doiledau cyhoeddus,

ac roedd aelodau'n awyddus i wybod os oedd modd clustnodi'r arian i'w ddefnyddio gan y cynghorau cymuned.

Cynigiwyd, eiliwyd a phasiwyd gwelliant oedd yn ychwanegu cymal at y cynigion gwreiddiol sef bod y Cyngor yn gofyn i'r Cynulliad glustnodi'r arian ar gyfer y cynghorau cymuned er mwyn eu cynorthwyo i gadw'r toiledau ar agor.

Hefyd, cytunwyd bod y swyddogion ysgrifennu at y cynghorau cymuned i'w hysbysu o fwriadau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

**(A) Cadarnhau penderfyniad Bwrdd y Cyngor sef**

- **(i) Cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth;**
- **(ii) Gofyn i'r Gweithgor symud ymlaen i wneud asesiad cynhwysfawr o holl doiledau cyhoeddus y sir, gan wyntyllu pob posibilrwydd i weithio mewn partneriaeth ar draws y sir, yn ogystal ag edrych ar anghenion lleoliadau strategol, gyda golwg i uwchraddio'r darpariaethau hynny;**
- **(iii) Gofyn i'r Gweithgor ymchwilio i gynllun y Cynulliad i annog cynghorau i gydweithio gyda busnesau i hwyluso'r defnydd o doiledau cyhoeddus ;**
- **(iv) Cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.**

**(B) Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cynulliad ystyried ymestyn ei gynllun sy'n hwyluso cydweithio gyda busnesau i ganiatau'r cyhoedd ddefnyddio toiledau sydd yn arferol wedi eu darparu ar gyfer cwsmeriaid yn unig, i gynnwys cynghorau cymuned a thref iddynt hwy hefyd fod yn gymwys i dderbyn arian o'r cynllun i'w cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus ac i'w cadw ar agor.**

**(B) Eitem 11 – Adeilad y Goleuad**

(a) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio a'r Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cwsmer ynglŷn â gwneud defnydd o bwerau statudol Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i waredu Adeilad y Goleuad am lai na gwerth y farchnad ynghyd â chofnod o benderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 14 Hydref, sef:-

*PENDERFYNWYD*

*(i) Mynegi pryder bod gwybodaeth eithriedig oedd yn cynnwys manylion masnachol sensitif a chyfrinachol wedi ei ryddhau i'r wasg, ac awdurdodi'r Swyddog Monitro i gynnal ymchwiliad trylwyr i'r mater, ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd gydag argymhellion.*

*(ii) Defnyddio pwerau statudol Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i waredu Adeilad y Goleuad am lai na'r cynnig uchaf ar y sail fod cynllun Cwmni Da Cyf yn cynnig buddiannau economaidd ychwanegol i'r cynllun oedd yn cynnig y pris uchaf, ac yn cyd-fynd yn agosach gydag amcanion strategol y Cyngor a gweledigaeth Bwrdd Cyd Fenter Doc Fictoria ar gyfer y safle a'r ardal ehangach.*

*(iii) Cynnwys cyfamod addas yn y gwerthiant i'w bennu gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol, i warchod unrhyw gynnydd mewn pris allasai ddeillio pe gwerthir yr adeilad ymlaen yn y dyfodol ar gyfer categori defnydd gwahanol a fyddai o werth uwch.*

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhelliad y Bwrdd.

(c) Adroddwyd bod Bwrdd Cyd Fenter Doc Fictoria, Pwyllgor Ardal Arfon a Bwrdd y Cyngor wedi ystyried y mater yn ofalus ac wedi cymeradwyo gwaredu'r eiddo i Cwmni Da Cyf am lai na'r cynnig uchaf.

Roedd y cyrff o'r farn fod y cynllun yn cynnig buddiannau economaidd ychwanegol i'r cynllun oedd yn cynnig y pris uchaf am yr eiddo, ei fod yn cyd-fynd yn agosach gydag amcanion strategol a'r weledigaeth ar gyfer y safle ac y dylid gwneud defnydd o'r pwerau i waredu'r adeilad am lai na'r cynnig uchaf, gan fod y cynnig yn cydymffurfio gyda'r amodau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003.

Nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud defnydd o'r hawl i waredu asedau'r Cyngor am lai na phris y farchnad yn y gorffennol, gan gynnwys gwaredu tiroedd i ddatblygwyr am lai na phris y farchnad ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy. Roedd llawer o'r aelodau'n gobeithio'n fawr y byddai'n bosibl defnyddio'r hawliau eto yn y dyfodol, er mwyn sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i'r sir.

Eglurwyd bod y Bwrdd wedi cloriannu'n ofalus y buddiannau economaidd fyddai'n deillio o waredu'r eiddo i Cwmni Da am lai na'r pris uchaf yn erbyn y golled ariannol unwaith ac am byth o £115,0000.

(ch) Fodd bynnag roedd sawl aelod yn wrthwynebus iawn i waredu'r eiddo am lai na'r cynnig uchaf. Tra roeddynt yn gefnogol i waredu rhai o asedau'r Cyngor am lai na phris y farchnad yn y gorffennol - er mwyn dod â buddion economaidd a chymdeithasol i'r sir, roeddynt yn gryf o'r farn ei bod yn annerbyniol i'r Cyngor, dderbyn pris oedd 90% yn is na'r cynnig uchaf oherwydd sefyllfa ariannol argyfyngus y Cyngor, Roeddynt yn dymuno derbyn y cynnig uchaf am yr adeilad, er mwyn gwneud yn fawr o'r derbynion cyfalaf a ddeuai o'r gwerthiant.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i anfon y mater yn ôl i'r Bwrdd, naill a'i ar gyfer derbyn y cynnig uchaf o £120,000 am yr adeilad neu i ail-ddechrau'r broses dendro unwaith eto yn y gobaith y derbynnir prisiau fydd yn agosach at ei gilydd.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod:-

O blaid y gwelliant (12)

Y Cynghorwyr Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Eric Merfyn Jones, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Peter Read, Siôn Selwyn Roberts, Gethin Glyn Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

Yn erbyn y gwelliant (38)

Y Cynghorydd Bob Anderson, E T Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Gwen Gruffydd, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Huw Hughes, Ann Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, R L Jones P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, Gareth Roberts, Ann Williams, a R H Wyn Williams,

Atal (6)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Eryl Jones-Williams, Dafydd Roberts, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos a Gwilym Williams
Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

(Roedd y Cynghorydd W Penri Jones wedi gadael y cyfarfod cyn yr eitem, ac roedd y Cynghorwyr Siân Gwenllian, Dyfrig Wynn Jones, John Wyn Williams a Gwilym Euros Roberts wedi gadael y Siambr ar gyfer yr eitem oherwydd bod ganddynt fuddiant oedd yn rhagfarnu)

Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi ceisio gwaredu'r safle ers blynyddoedd lawer, bod sawl ymgais wedi methu yn y gorffennol, bod Cwmni Da'n barod i symud ar y mater gan ddiogelu a chreu swyddi a dod a buddion economaidd i'r ardal. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw sicrwydd y deuai unrhyw dendrau gwell i law pe byddai'r Cyngor yn penderfynu gwahodd tendrau o'r newydd.

Ymhellach eglurwyd bod cynnwys cyfamod addas yn y gwerthiant, i warchod unrhyw gynnydd mewn pris allasai ddeillio pe gwerthir yr adeilad ymlaen yn y dyfodol ar gyfer categori defnydd gwahanol a fyddai o werth uwch, yn diogelu buddiannau'r Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 14 Hydref sef :-**

**a) Defnyddio pwerau statudol Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i waredu Adeilad y Goleuad am lai na'r cynnig uchaf ar y sail fod cynllun Cwmni A yn cynnig buddiannau economaidd ychwanegol i'r cynllun oedd yn cynnig y pris uchaf, ac yn cyd-fynd yn agosach gydag amcanion strategol y Cyngor a gweledigaeth Bwrdd Cyd Fenter Doc Fictoria ar gyfer y safle a'r ardal ehangach.**

**b) Cynnwys cyfamod addas yn y gwerthiant i'w bennu gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol, i warchod unrhyw gynnydd mewn pris allasai ddeillio pe gwerthir yr adeilad ymlaen yn y dyfodol ar gyfer categori defnydd gwahanol a fyddai o werth uwch**

**BWRDD Y CYNGOR – 4 TACHWEDD 2008**

**(C) Eitem 6 – Cynllun Tair Blynedd**

(a) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ynglŷn â cheisio cymeradwyaeth i wariant ar rai cynlluniau o dan y Cynllun Tair Mlynedd, a chymeradwyo rhyddhau arian i wireddu rhai ymrwymiadau yn y Cynllun, a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 4 Tachwedd 2008, ynghyd â chofnod o'r penderfyniad, sef:-

*PENDERFYNWYD rhyddhau hyd at £125,000 o arian unwaith ac am byth (o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn ei le) ar gyfer cyfarfod â chostau'r ddau gynllun, sef Denu Pobl Ifainc yn ôl i'r Sir (£75,000) a Phartneriaid mewn Gofal (£50,000).*

Cynigiwyd ac eiliwyd penderfyniad y Bwrdd.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ohirio penderfyniad ynglŷn â'r Cynllun I Ddenu Pobl Ifanc yn ôl i'r Sir er mwyn rhoddi cyfle i gyflwyno adroddiad mwy cynhwysfawr i Fwrdd y Cyngor, fyddai'n cynnwys cyfeiriad, targedau a deilliannau pendant i'r Cynllun

**PENDERFYNWYD gohirio penderfyniad ynglŷn â'r cynllun Denu Pobl Ifanc yn ôl i'r sir, a chyflwyno adroddiad mwy cynhwysfawr i Fwrdd y Cyngor**

## 11 LWFANSAU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar ddiwygio'r Cynllun Lwfansau Aelodau.

Adroddwyd y penodwyd Panel Annibynnol gan y Cynulliad i bennu uchafswm y lwfansau y gall Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol dalu i'w haelodau. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr, a chyhoeddwyd adroddiad cychwynnol gan y Panel. Bellach mae angen adolygu a diwygio Cynllun Lwfansau cyfredol y Cyngor, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd.

Eglurwyd bod y Cyngor ar yr 28 Chwefror, 2008 wedi penderfynu rhewi'r lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb arbennig ar lefelau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer 2008/09. Wrth adolygu'r cynllun cyfredol, ategwyd penderfyniad y Cyngor gan y Grŵp Busnes wrth ystyried adroddiad y Panel Annibynnol, a derbyniwyd arweiniad nad oeddynt yn dymuno gweld cynnydd yn y lwfansau yn y flwyddyn gyfredol, a dylid cyflawni newidiadau angenrheidiol yn unig er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd.

Nodwyd y bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor pan fydd y Panel Annibynnol wedi adrodd ar lefel y lwfansau ar gyfer y flwyddyn 2009/10.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Peidio cynyddu'r lwfansau yn y flwyddyn gyfredol gan lynu wrth benderfyniad y Cyngor ar 28 Chwefror 2008 i rewi'r lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb arbennig ar lefelau flwyddyn flaenorol ar gyfer 2008/09;**

**(ii) Cyflawni newidiadau i'r Cynllun Lwfansau Aelodau yn unol â'r manylion a nodir yng nghymalau 5 (a)-(f) yn adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd;**

**(iii) Awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd i wneud y diwygiadau perthnasol i Gynllun a Chanllawiau Lwfansau cyfredol y Cyngor.**

## 12 SIARTER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd i gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â gofynion Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau ac i ail-ddatgan ymrwymiad i gyrraedd safonau'r Siarter.

Adroddwyd bod y Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau yn gosod fframwaith i arfogi aelodau gyda'r wybodaeth, sgiliau a chyfleusterau i ymgymryd â'u dyletswyddau yn fwy effeithiol.

Eglurwyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno cais am y Siarter yn 2006, bod cryn dipyn o waith wedi mynd rhagddo i gyrraedd safonau'r Siarter ers hynny, a bod y Cyngor bellach bron mewn sefyllfa i gyflwyno cais, a bod cyfle i'r Cyngor newydd ail-ddatgan ymrwymiad i gyflwyno cais am y Siarter.

Darparwyd gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â chynnwys, egwyddorion, anghenion a gofynion disgwyliedig y Siarter.

Wrth groesawu'r cyfle i ymgeisio am y Siarter, gofynnodd aelod am hyrwyddo'r defnydd o gyfrifiaduron yn gyffredinol, sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer y defnydd o gyfrifiaduron yn Siambr y Cyngor ac am system bleidleisio electronig.

**PENDERFYNWYD nodi'r gofynion ac ail-ddatgan ymrwymiad i wneud cais am Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau.**

## 13 AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD Y SIR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi rhybudd statudol i gau ysgol Llawrybetws erbyn 31 Awst 2009.

Adroddwyd bod y Cyngor ar 16 Hydref wedi penderfynu cynnal cyfnod ymgynghori statudol ar y bwriadu o gau Ysgol Llawybetws, fel canlyniad i bryderon ynglŷn â chynaladwyedd yr ysgol yn wyneb lleihad sylweddol yn nifer disgyblion yn yr ysgol.

Darparwyd manylion ynglŷn â'r cyfnod a'r cyfarfodydd ymgynghori oedd wedi mynd rhagddynt. Eglurwyd bod rhieni, plant, staff a llywodraethwyr wedi cael cyfle i fynychu'r cyfarfodydd statudol, gydag aelodau etholedig, oedd yn llywodraethwyr yr ysgolion perthnasol yn cael cyfle i fynychu a chyfrannu i'r broses. Hefyd dosbarthwyd y ddogfen ymgynghorol gydag ystod o gyrff ac unigolion.

Cyfeiriwyd at lythyr oedd i law oddi wrth Bennaeth Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn, oedd yn cyfleu tristwch a dwyster y sefyllfa, ac ategwyd yr angen i warchod yr ysgolion lleiaf mewn modd adeiladol a chreadigol.

**PENDERFYNWYD cyhoeddi rhybudd statudol i gau Ysgol Llawrybetws erbyn 31 Awst 2009.**

## 14 GWELEDIGAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Gofal i fabwysiadu gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

Adroddwyd
(i) bod angen i'r Cyngor gael gweledigaeth glir ar draws ei ddyletswyddau gofal cymdeithasol, a lluniwyd gweledigaeth i'r Cyngor sy'n berthnasol i'w holl wasanaethau, aelodau, swyddogion, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth;
(ii) bod Bwrdd y Cyngor wedi ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2008, ac wedi penderfynu fel a ganlyn:-.

*PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sef:*

- *<u>Ein pwrpas</u> yw mynd i'r afael ag anfantais, ynghyd â diogelu ac adeiladu ar gryfderau unigolion*
- *<u>Ein huchelgais</u> ar gyfer 2010-11 yw gwasanaethu'r holl bobl yn dda, cael allbynnau o ansawdd uchel ac i bobl fod â rhagolygon rhagorol ar gyfer y dyfodol*
- *<u>Ein gwerthoedd</u> – bydd pwyslais ar degwch, codi disgwyliadau, grymuso, annibyniaeth a rhoi'r person yn ganolog*
- *<u>Ein cyfundrefn</u> – bydd pwyslais ar arweinyddiaeth a chyfathrebu effeithiol mewn amgylchedd sy'n edrych ymlaen i'r dyfodol, sy'n barod i newid, sy'n meddwl yn eang ac yn bwrpasol heb ormod o fiwrocratiaeth.*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a mabwysiadu'r Weledigaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.**

## 15 CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd i ymrwymo'r Cyngor ymhellach i gydweithio gyda phedwar Awdurdod Lleol o fewn rhanbarth Gogledd Cymru i sefydlu darpariaeth i ymdrin â gwastraff gweddilliol.

Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2008 wedi ystyried y cynllun, ac wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*(i)* *argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn cefnogi sefydlu Cydbwyllgor yn unol â'r adroddiad a bod yr Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd a'r Arweinydd Portffolio Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cydbwyllgor Prosiect Gwastraff Rhanbarthol.*
*(ii)* *argymell i'r Cyngor llawn bod y bleidlais ar y Cydbwyllgor gyda'r Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd.*
*(iii)* *awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd i wario hyd at £100k o'r swm £1 miliwn sydd wedi ei glustnodi i'r Prosiect.*
*(iv)* *ddatgan cefnogaeth i Gyngor Fflint ymgymryd â'r rôl Awdurdod Arweiniol ar gyfer y Prosiect.*
*(v)* *awdurdodi Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd i gytuno i'r Awdurdod Arweiniol arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y Cynulliad.*
*(vi)* *awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd mewn ymgynghoriad a'r Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd a'r Arweinydd Portffolio Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i gytuno ffurf derfynol y Ddogfen Cychwyn Prosiect*
*(vii)* *yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor ar ffurfio Cyd Bwyllgor, i gytuno i ymuno mewn cytundeb Partneriaeth gyda'r 4 Awdurdod er cyflawni Cynllun Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect gwastraff gweddilliol.*

Eglurwyd mai bwriad y prosiect oedd cyd-weithio ar lefel rhanbarth Gogledd Cymru gyda chynghorau Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Gwynedd i bwrcasu gwasanaeth i ymdrin â'r elfen weddilliol o wastraff bwrdeistrefol, sef yr elfen sydd ddim yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio.

Ymhellach eglurwyd bod angen i'r gwasanaeth a bwrcesir sicrhau bod y cynghorau yn gallu ymateb i ofynion tebygol gan y Cynulliad o ran ymdrin â gwastraff gweddilliol yn y dyfodol, fydd yn golygu symud oddi wrth drefniadau traddodiadol o dirlenwi gwastraff i uchafu trefniadau ailgylchu a chompostio, ac adennill ynni a gwres o'r gweddill.

Darparwyd gwybodaeth lawn ynglŷn â gweithredu'r prosiect a threfniadau llywodraethu trwy'r Cydbwyllgor Prosiect Gwastraff Rhanbarthol.

Croesawyd y Cynllun yn fawr, a llongyfarchwyd blaengaredd y Cyngor ym maes gwaredu gwastraff.

**PENDERFYNWYD**

**(i)** **Cytuno i sefydlu Cydbwyllgor Prosiect Gwastraff Rhanbarthol yn unol ag adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwrachod y Cyhoedd**
**(ii)** **Penodi'r Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd i weithredu fel aelod â phleidlais a'r Arweinydd Portffolio Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gynrychioli'r Cyngor ar y Cyd- Bwyllgor Prosiect Gwastraff Rhanbarthol.**
**(iii)** **bod y Cyd Bwyllgor Prosiect Gwastraff Rhanbarthol â'r swyddogaethau canlynol:**

**(a)Cadarnhau cyllideb flynyddol y prosiect;**
**(b)Ystyried a gwneud argymhellion i'r Awdurdodau unigol ynglŷn â Chynllun Busnes Amlinellol y prosiect;**
**(c) Penodi, drwy argymhelliad i'r Awdurdod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Prosiect a Rheolwr Prosiect;**
**(ch) Monitro a rheoli risgiau'r Prosiect;**
**(d) Cadarnhau ceisiadau ar gyfer arian ychwanegol oedi wrth awdurdodau unigol**

**16 RHYBUDD O GYNNIG**

(a) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod y Cyngor hwn yn peidio troi tŷ cyngor yn Ward Porthmadog/Tremadog yn dŷ arddangos fel rhan o'r bleidlais arfaethedig i fesur cefnogaeth tenantiaid y Cyngor i drosglwyddo'r stoc dai.**

**Oherwydd bod agor tŷ i'r diben hwn yn ei Ward yn groes i ddymuniad yr Aelod Etholedig Lleol sydd o'r farn y bydd gwireddu'r bwriad yn tanseilio democratiaeth ac atebolrwydd lleol."**

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Gofal a Phennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd.

Darperir Tai arddangos fel rhan o'r Prosiect Pleidlais Stoc Tai gyda'r nod o gynnig gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ymysg tenantiaid o Safon Ansawdd Tai Cymru. Fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor fel rhan o'r Prosiect, a sefydlwyd 8 tŷ arddangos ar draws Gwynedd.

Cysylltwyd gyda'r aelod lleol ynglŷn â defnyddio tŷ yn Isgraig, Tremadog. Oherwydd anfodlonrwydd yr aelod lleol, cytunwyd i wneud pob ymdrech i sicrhau tŷ arall. Fodd bynnag nid oedd eiddo addas arall ar gael yn yr ardal, a chadarnhawyd y bwriad i fwrw ymlaen i ddefnyddio'r tŷ yn Isgraig fel tŷ arddangos.

(c) Ymhelaethodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar ei gynnig. Eglurodd ei fod yn gyffredinol wrthwynebus i ddarparu tai arddangos. Roedd o'r farn ei fod yn wastraff o adnoddau prin y Cyngor, a'u bod hefyd yn llywio'r penderfyniad o blaid trosglwyddo'r stoc. Ymhellach eglurodd bod aelod lleol yn atebol i'w etholwyr, a'i fod yn anfodlon bod swyddog yn tanseilio barn aelod lleol ynglŷn â mater oedd yn ymwneud â'i ward, .

Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn ddeall rhwystredigaeth y cynghorydd, ac roedd yn cytuno bod dyletswydd ar swyddogion i geisio parchu barn yr aelod lleol wrth weithredu polisïau'r Cyngor. Fodd bynnag nid oedd grym aelod lleol uwchlaw polisïau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD peidio mabwysiadu'r cynnig.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 1:00 p.m. a daeth i ben am 4:50 p.m.**